



Croeso i'r Pecyn Cymorth Cyhoedduswydd Palasau Hwyl

Mae'r Pecyn Cymorth Cyhoedduswydd yn bodoli i'ch ysbrydoli a'ch cynorthwyo gyda syniadau am sut i ledaenu'r gair am eich Palas Hwyl a sut i annog pobl i ddod iddo. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn all gael ei gyflawni am ddim neu am gost fach. Mae gennym ein syniadau ein hunain, felly defnyddiwch y pecyn cymorth hwn, ond uwchlaw popeth **CHI** sy'n datblygu'r Palas Hwyl, rydych chi'n byw yn eich cymuned, rydych chi'n adnabod eich pobl, **CHI** yw'r arbenigwr - ewch amdani!

Gall fod yn ddefnyddiol darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r Canllawiau Arddull Palasau Hwyl, sef canllaw i sut y gallwn i gyd siarad am Balasau Hwyl a defnyddio ei hunaniaeth weledol (logo, ffont etc.).

[Dyma'r Canllawiau Arddull](#)

Cysylltu â ni

Os ydych eisiau siarad â ni am unrhyw agweddau ar gyhoedduswydd, yn lleol neu'n genedlaethol, cysylltwch â ni yn hello@funpalaces.co.uk a byddwn yn cysylltu'n ôl â chi mor fuan ag y gallwn.

Cynnwys

- Ble a phryd ddylwn i hysbysebu fy Mhalas Hwyl? t.2
- Gwybodaeth allweddol, copi, delweddau a ffotograffiaeth t.3
- Posteri, taflenni a baneri t.4
- Gweithio gyda'r cyfryngau a'r wasg t.5
- Cyfryngau cymdeithasol t.6
- Y Penwythnos Palasau Hwyl t.8
- Gweithio gyda'r Pencadlys Palasau Hwyl t.8
- Ystyriaethau Gwleidyddol t.9

Dolenni gwib

- Dyma rywfaint o [gopi parod ar gyfer taflenni/y we](#)
- Dyma'r [ffotograffau cyhoedduswydd](#)
- Dyma'r [posteri, taflenni, logo a baneri Palasau Hwyl](#)
- Dyma'r [templed datganiad i'r wasg](#)
- Dyma'r [delweddau cyfryngau cymdeithasol](#)
- Dyma'r llythyr [templed ar gyfer eich AC, AS neu Gynghorydd Lleol](#)



BLE A PHRYD DDYLWN I HYSBYSEBU FY MHALAS HWYL?

Pwy ydych chi eisiau iddynt ddod i'ch Palas Hwyl?

Mae Palasau Hwyl yn agored i bawb. Trwy roi cyfle i bawb gymryd rhan wrth greu a dod i Balasau Hwyl rydym yn credu ein bod yn creu diwylliant a chymunedau gwell ar ein cyfer ni i gyd.

Dechrau arni: ble i hysbysebu eich Palas Hwyl

Meddylwch am ble rydych fel arfer yn cael gwybod am ddiwyddiadau lleol e.e. cyfaill neu gymydog sydd wedi dweud wrthyh amdanynt, rhestriadau mewn papurau newydd lleol, gwefannau am yr ardal leol, cyfryngau cymdeithasol a thafleuni, posteri a baneri yn eich cymuned leol. Mae'r rhain yn fan cychwyn da.

Pryd ddylwn i hysbysebu fy Mhalas Hwyl?

Mor fuan ag y byddwch chi wedi cofrestru i greu eich Palas Hwyl, bydd y broses wedi dechrau. Pan fydd gennych leoliad a dyddiad ar gyfer eich Palas Hwyl gallwch ddechrau lledaenu'r gair. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gwybod yn union beth sy'n mynd i ddiwydd yn eich Palas Hwyl - dyna rhan o'r hwyl! Dylai eich prif gyfnod hysbysebu ddechrau 6-8 wythnos cyn eich Palas Hwyl, mae gweddill y pecyn hwn yn esbonio beth allai hynny fod.



GWYBODAETH ALLWEDDOL, COPI, DELWEDDAU A FFOTOGRAFFIAETH

Wrth wraidd ymgyrch gyhoeddusrwydd dda ceir defnydd cyson o wybodaeth allweddol, copi a delweddau/ ffotograffiaeth.

Gwybodaeth allweddol

Ni waeth p'un a ydych yn diweddarau gwefan, creu posteri, defnyddio cyfryngau cymdeithasol neu gysylltu â'r wasg ynglŷn â'ch Palas Hwyl, mae'n bwysig cyfathrebu'r pethau ymarferol yn rheolaidd: pwy, beth, pryd, ble a sut y bydd eich Palas Hwyl yn digwydd. **I helpu gyda hwn rydym wedi paratoi rhywfaint o gopi hysbysebu, y gallwch ddod o hyd iddo yma.** Mae'n ddefnyddiol nodi tri chysyniad cryno yr ydych eisiau i ddarpar ymwelwyr â'ch Palas Hwyl eu cofio hefyd, dyma bethau a allai fod yn ddiddorol, unigryw neu a fydd yn apelio iddynt. Ar ôl i chi baratoi'r rhain, gallwch ddefnyddio nhw ar draws eich cyhoeddusrwydd, e.e.

- Rhannu sgiliau, cysylltu cymunedau, creu chwyldroadau bychain
- Penwythnos am ddim o ddigwyddiadau cymunedol sy'n digwydd yn Brockwell Lido
- Darganfyddwch hanesion cuddiedig Leith ym Mhalas Hwyl Leith
- Dewch i ymweld â'r unig Balas Hwyl yn y byd sydd mewn coedwig
- Dysgwch sgil anhygoel newydd gan eich cymydog

Delweddau a ffotograffiaeth

Dewch o hyd i ddelweddau a ffotograffiaeth a allai adrodd stori'r hyn a fydd yn digwydd yn eich Palas Hwyl neu bwy sy'n cymryd rhan. Ceisiwch roi detholiad bach o ffotograffau at ei gilydd (hyd at 8) y gallwch eu defnyddio i helpu esbonio eich Palas Hwyl ar draws yr holl gyhoeddusrwydd. Dylai llun gwych fod yn lliwgar ac wedi'i oleuo'n dda. Mae pobl wedi'u denu i bobl eraill, felly mae wynebau yn eich lluniau - yn enwedig rhai gyda golygon cryf - bob amser yn ddefnyddiol. Os cynhelir eich Palas Hwyl mewn lleoliad eiconig, gallai hynny fod yn gefndir gwych ar gyfer saethu eich lluniau. Os nad oes gennych unrhyw beth addas. A oes ffotograffau o'r crewyr, ac/neu eu gwaith? A allech chi drefnu sesiwn tynnu lluniau gyda rhai o'r bobl sy'n cymryd rhan, gan ddangos beth y byddant yn ei wneud ar y penwythnos? **Mae gan Balasau Hwyl ddetholiad o ffotograffau y gallwch eu defnyddio, [gallwch lawrlwytho nhw yma](#).** Fel arall, mae ein logo darluniedig yn fan cychwyn da.

Fformatau

Gwnewch yn siŵr bod eich ffotograffau o ansawdd digonol i'w hargraffu - mae 300dpi/1MB yn wych.

POSTERI, TAFLENNI, BANERI

Mae arddangos posteri a thafleenni o gwmpas yr ardal sy'n lleol i'ch Palas Hwyl yn ffordd wych o hysbysu pobl amdano. Gallwch lawrlwytho ein [posteri Palasau Hwyl A3 ac A4 a thempledi](#)

PALASU HWYL

[taflenni A5 yma](#) a'u personoli gyda'ch manylion chi. Gall pob Palas Hwyl ofyn am 50 o bosteri Palasau Hwyl mewn fformat A3 neu A4, a 50 o daflenni, [cysylltwch â ni](#) erbyn dechrau mis Medi fan hwyrach. Dylai'r manylion gynnwys:

- dyddiad/au ac amser/au eich Palas Hwyl
- pryd mae'n digwydd
- gwybodaeth gyswllt
- eich tudalen Crëwr Palas Hwyl ar ein gwefan ni ac/neu eich gwefan eich hun
- manylion cyfryngau cymdeithasol (facebook/twitter etc)
- Eich negeseuon allweddol a/neu gopi hysbysebu/amserlen (taflen yn unig)

Mae dosbarthu taflenni'n ffordd wych o ledaenu'r gair. Nodwch rannau prysur o'ch ardal leol, efallai gorsaf drenau, ardal siopa neu farchnad, a threuliwch rywfaint o amser yn yr wythnos cyn eich digwyddiad yn dosbarthu taflenni ac yn siarad â phobl am eich Palas Hwyl.

Bydd gennym faneri Palasau Hwyl awyr agored y gallwn eu hanfon atoch i'ch helpu hybu'ch Palas Hwyl. I isafu gwastraff, bydd angen postio'r rhain yn ôl atom ar ôl y penwythnos Palasau Hwyl.

The graphic features two banners at the top. The left banner says 'PALASU HWYL' and the right banner says 'FUN PALACES'. Below the banners are two columns of text. The left column reads 'YN DIGWYDD YMA AR DDYDD SADWRN' in large orange letters, with 'RHANNU A DATHLU DIVYLLIANT EIN CYMUNED' in smaller blue letters below. The right column reads 'HAPPENING HERE THIS SATURDAY' in large orange letters, with 'SHARING AND CELEBRATING OUR COMMUNITY'S CULTURE' in smaller blue letters below. To the right of the text is a detailed illustration of a multi-story castle with various activities taking place inside and outside. At the bottom left, there is a website URL 'funpalaces.co.uk' and social media icons for Instagram, Facebook, and Twitter. At the bottom right, there are logos for 'Local Events in South Wales', 'A', 'W', and 'CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND'.



GWEITHIO GYDA'R CYFRYNGAU A'R WASG

I hysbysebu eich Palas Hwyl a rhannu eich stori'n ehangach, mae'n werth cysylltu â phapurau newydd lleol, gorsafoedd radio, gorsafoedd teledu a blogiau lleol. Darganfyddwch ba newyddiadurwr sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb yn eich Palas Hwyl ac a fydd eisiau siarad am eich digwyddiad; efallai eu bod wedi rhoi sylw i ddigwyddiadau tebyg yn y gorffennol, neu fod ganddynt deitl swydd fel Golygydd Celf ac Adloniant neu Olygydd Diwylliant. Yn y lle cyntaf, e-bostiwch gopi o'ch datganiad i'r wasg a nodyn esboniadol sy'n esbonio eich Palas Hwyl, ac wedyn dilynwch hyn i fyny gyda galwad ffôn os nad ydych wedi clywed yn ôl oddi wrthynt.

Cyngor ar gysylltu â newyddiadurwyr

- Paratowch y tri pheth allweddol rydych eisiau eu dweud am eich digwyddiad: cadwch e'n gryno. Pa beth sy'n unigryw am eich Palas Hwyl?
- Gwybod beth rydych yn gofyn amdano: a oes colofn benodol yr hoffech i'ch Palas Hwyl ymddangos ynddi, a hoffech gael eich cyfweld ar sioe benodol, neu a hoffech i newyddiadurwr/ffotograffydd fod yno ar y dydd i ohebu arno?
- Gwybod beth y gallwch ei gynnig iddynt: a oes gennych unrhyw luniau i arddangos eich Palas Hwyl? Pwy sydd ar gael i wneud cyfweiliadau? A all papur newydd anfon ffotograffydd ar y dydd?

Cyfnodau rhybudd

Cofiwch faint o amser mae'n ei gymryd i newyddiadurwr gynllunio i fynd i'ch Palas Hwyl a gohebu arno.

- **Papurau newydd wythnosol:** pedair i chwe wythnos ymlaen llaw
- **Papurau newydd dyddiol:** wythnos i bythefnos ymlaen llaw
- **Newyddion teledu:** dwy i dair wythnos ymlaen llaw
- **Gorsafoedd radio:** wythnos i bythefnos ymlaen llaw
- **Blogiau:** dwy i dair wythnos ymlaen llaw

Mae llawer o deitlau'n cynnig gwasanaeth rhestriadau, sy'n galluogi chi i uwchlwytho manylion eich Palas Hwyl trwy eu gwefan i'w rhannu â'u darllenwyr. Mae'n werth gwneud hynny pedair wythnos ymlaen llaw am y cyfle gorau o gael eich cynnwys.

Datganiad i'r wasg enghreifftiol

Defnyddiwch y [templed Datganiad i'r Wasg](#) i hysbysu newyddiadurwyr am eich Palas Hwyl.



CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae llawer o rwydweithiau ar gael i'ch helpu hybu a dathlu eich Palas Hwyl yn gyhoeddus. Yn y gorffennol, mae rhai Palasau Hwyl wedi dewis sefydlu eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain, mae rhai eraill yn defnyddio cyfrifon y lleoliad lletya i helpu lledaenu'r gair. Mae gan y pencadlys Palasau Hwyl dair sianel cyfryngau cymdeithasol ac mae'r rhain yn llwyfannau gwych lle gallwn arddangos yr hyn sy'n digwydd ar safleoedd y Palasau Hwyl amrywiol ar draws y wlad, yn ogystal ag i chi i gyd gadw mewn cysylltiad.

Sefydlu a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol

Twitter yw'r ffordd symlaf o gysylltu'n gyflym ac yn uniongyrchol ag unigolion a sefydliadau sy'n berthnasol i'ch Palas Hwyl. Anelwch at 4-6 thrydariat y dydd, yn ogystal ag ymateb i sylwadau a chwestiynau.

Mae **Facebook** wedi'i bersonoli'n fwy, gyda defnyddwyr yn cymryd amser hwy yn edrych ar y cynnwys. Mae'n dda ar gyfer rhannu darnau gwybodaeth hirach a delweddau/fideos. Ceisiwch bostio unwaith y dydd, yn ogystal ag ymateb i sylwadau a chwestiynau.

Mae **Instagram** yn ffordd wych o dynnu, golygu a rhannu ffotograffau o'ch Palas Hwyl. Ceisiwch bostio unwaith y dydd ar eich ffrwd, a defnyddiwch nodwedd Storiâu Instagram pryd bynnag y bydd rhywbeth diddorol i'w ddangos.

Blogiau Mae gan Balasau Hwyl flog Crewyr, os hoffech siarad am y profiad o greu neu fynd i Balas Hwyl, byddwn yn falch o westeia hyn ar ein gwefan a darparu dolen i chi i'w rannu unrhyw le arall.

Ymysg y rhwydweithiau eraill y gallech eu hystyried mae: **Pinterest, Snapchat, TikTok, YouTube a LinkedIn.**

Delweddau cyfryngau cymdeithasol

Mae Palasau Hwyl yn darparu amrywiaeth o ddelweddau ar gyfer Facebook, Twitter ac Instagram all gael eu lawrlwytho yma.



Hashnod #PalasauHwyl

Yr hashnod Palasau Hwyl yw **#PalasauHwyl**. Byddem yn ddiolchgar petai modd i chi arddangos hwn ar eich holl gyhoeddusrwydd a defnyddio fe pryd bynnag y byddwch yn postio ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, Twitter ac Instagram. Trwy ddefnyddio'r hashnod gallwn rannu a dathlu'r hyn sy'n digwydd yn eich Palas Hwyl. Mae'r hashnod yn rhoi llais ar y cyd i ni hefyd, yn enwedig yn ystod y penwythnos.

Pencadlys Palasau Hwyl ar Gyfryngau Cymdeithasol - dilynwch ni!

- **Facebook:** www.facebook.com/FunPalaces.

Gofynnir i chi Hoffi'r dudalen Palasau Hwyl genedlaethol ar Facebook yn ogystal â rhannu'r pethau rydym yn eu postio.

- **Twitter:** www.twitter.com/FunPalaces.

Dilynwch ni ar Twitter a dwedwch wrthym beth sy'n digwydd yn eich Palas Hwyl.

- **Instagram:** <https://www.instagram.com/funpalaces/>

Dilynwch ni ar Instagram a thagiwch ni yn eich lluniau.



Y PENWYTHNOS PALASAU HWYL

Palasau Hwyl ynghyd!

Rydym eisiau i bawb wybod am Balasau Hwyl - am waith caled eich cymuned a phwysigrwydd diwylliant a grëir gan, dros a gyda phawb. I helpu lledaenu'r gair am Balasau Hwyl, rydym yn gofyn i chi i gyd ein helpu trwy wneud tri pheth pwysig.

1) Addurno eich Palas Hwyl - all pawb weld y logo?

Dangoswch ein baner a'r poster Penwythnos. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn eich Palas Hwyl wedi gweld ein logo. Mae'n dda i arddangos y rhain ger y mynedfeydd a'r allanfeydd.

2) Cyfryngau cymdeithasol #PalasauHwyl

Rhowch wybod i ni beth sydd wedi bod yn digwydd yn eich Palas Hwyl ar Twitter trwy dagio ni a defnyddio'r hashnod #PalasauHwyl. Anogwch eraill i wneud yr un peth trwy arddangos yr hashnod yn amlwg yn eich Palas Hwyl. Bob blwyddyn rydym wedi adeiladu digon o fomentwm i achosi #PalasauHwyl i drendio ar Twitter - fe geisiwn ni wneud hyn eto!

3) Beth am y flwyddyn nesaf?

Mae pawb sy'n dod i'ch Palas Hwyl yn ddarpar Grëwr Palas Hwyl y dyfodol. Helpwch bobl eraill i ddeall sut y gallant gymryd rhan trwy arddangos y cardiau post 'Cymryd Rhan' Palasau Hwyl a gaiff eu hanfon atoch trwy'r post.



GWEITHIO GYDA'R PENCADLYS PALASAU HWYL

Diweddariadau e-bost

Bydd Palasau Hwyl yn anfon e-byst rheolaidd gyda gwybodaeth a diweddariadau atoch. Yn yr e-byst hyn mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweiliadau cyfryngau cymdeithasol neu ddarparu pythiau o wybodaeth i ni. Dydyn ni ddim eisiau cymryd llawer o'ch amser chi, ond bydd darparu'r wybodaeth hon yn rhoi cefnogaeth enfawr i'r prosiect Palasau Hwyl cenedlaethol, gan helpu ni i gyfathrebu'r hyn sy'n digwydd mewn Palasau Hwyl unigol, yn ogystal ag ysbrydoli eraill i greu eu Palasau Hwyl eu hunain yn y dyfodol.



YSTYRIAETHAU GWLEIDYDDOL

Mae Palasau Hwyl yn adlewyrchiad gwych o greadigrwydd a bywiogrwydd cymunedau lleol, ac yn anaml iawn y ceir cyfle gwell i amlygu hyn i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau a fydd yn diffinio ein tirweddau diwylliannol.

Gwahoddwch eich AS Lleol

Hoffem annog yr holl Gwyr Palasau Hwyl i wahodd eu gwleidyddion lleol a Chynghorwyr lleol i ddod i'w Palasau Hwyl lleol.

Yn hytrach nag anfon dim ond e-bost byddai'n wych, os yw'n bosib, i Gwyr greu gwahoddiad mwy 'artistig' - beth bynnag mae hynny'n ei olygu i chi - a rhannu llun ohono gyda ni trwy gyfryngau cymdeithasol. Gallech hyd yn oed ei rhoi'n bersonol i'ch AS a'ch Cynghorwyr; dyma gyfle gwych i bapur newydd lleol dynnu lluniau, ac wrth gwrs mae'n gynnwys gwych ar gyfer eich ffrydiau cyfryngau cymdeithasol!

Rhan gyntaf mis Medi yw'r amser gorau i ddanfon y gwahoddiad i'ch AS. Bryd hynny bydd Aelodau Seneddol wedi dychwelyd o'r egwyl Haf ac ni fydd tymor Cynadleddau'r Pleidiau wedi dechrau eto (diwedd mis Medi i ran gyntaf mis Hydref) - felly byddant yn mynd i mewn i'w Cynhadledd gyda bywiogrwydd celf a diwylliant Prydain yn wirioneddol ym mlaenau eu meddyliau.

Dyma [dempled o lythyr i'ch AS neu Gynghorydd](#) lleol gyda geiriau wedi'u hawgrymu ar gyfer y gwahoddiad, ond mae croeso i chi fod yn fwy creadigol!